## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012") a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016"). Mae'n mewnosod darpariaethau yn y Gorchmynion hynny sy'n addasu neu'n datgymhwyso gofynion penodol mewn perthynas â'r cyfnod sy'n dechrau ar 19 Mai 2020 ac sy'n dod i ben ar 18 Medi 2020.

Mae erthygl 2 yn mewnosod erthygl 2G newydd yng Ngorchymyn 2012. Mae erthygl 2G yn addasu Rhan 1A o Orchymyn 2012, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch yr ymgynghoriad y mae rhaid ei gynnal cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mawr.

Mae'r erthygl 2G(3) newydd yn addasu erthygl 2C o Orchymyn 2012 fel bod gofyniad i roi'r dogfennau ar gael ar wefan ac ar ffurf copi caled ar gais wedi ei roi yn lle'r gofyniad i roi gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chais cynllunio arfaethedig ar gael yn lleol i'w harchwilio. Er mwyn adlewyrchu hynny, darperir ffurf addasedig o'r hysbysiad y mae rhaid ei osod ar neu gerllaw'r tir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef a'i anfon at berchnogion a meddianwyr tir cyffiniol. Mae'r un ffurf addasedig o'r hysbysiad i'w defnyddio i hysbysu ymgyngoreion cymunedol o dan erthygl 2D o Orchymyn 2012.

Mae'r erthygl 2G(4) newydd yn addasu erthygl 2C o Orchymyn 2012 i ddarparu, os gofynnwyd am gopïau caled o unrhyw ddogfennau, na chaniateir cyflwyno cais cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod yr anfonir y ddogfen olaf.

Mae'r erthygl 2G(7) newydd yn addasu erthygl 2F o Orchymyn 2012 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad ar ymgynghoriad cyn-ymgeisio gynnwys cadarnhad bod y gofynion addasedig i roi gwybodaeth am y cais arfaethedig ar gael ar wefan ac i ddarparu copïau caled o'r wybodaeth honno pan ofynnir amdanynt wedi eu bodloni. Mae datganiad yn cadarnhau pa un a ofynnwyd am gopïau caled ai peidio i'w gynnwys hefyd.

Mae erthygl 3 yn gwneud newidiadau i erthygl 16 o Orchymyn 2012 er mwyn estyn yr amser sydd gan gynghorau cymuned i ymateb pan gânt eu hysbysu am gais cynllunio, o 14 o ddiwrnodau i 21 o ddiwrnodau.

Mae erthygl 4 yn datgymhwyso'r gofyniad yn erthygl 12 o Orchymyn 2016 i berson adneuo copi caled o gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol gyda Gweinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol pan wneir y cais gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru.